



Cael llais
cryf yn y
gwaith



Gwneud eich
gweithle yn fwy
cynaliadwy



Creu gweithle mwy
cyfartal a
chynhwysol



Cael cyflo
a buddion
gwell


Fyddwch chi
byth yn
teimlo eich
bod ar eich
pen eich hun.

prospect.org.uk/join

Beth yw
manteision
ymuno ag
undeb?



Gwneud eich
gweithle yn iachach
a mwy diogel



Gwella addysg a
hyfforddiant
yn eich gweithle

Ymunwch heddiw, gnewch wahaniaeth.

prospect.org.uk/join



Yr Amgylchedd

Mae undebau llafur yn chwarae rôl bwysig mewn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy ymgyrchu i wneud gweithleoedd yn fwy cynaliadwy ac yn fwy ystyrlon o'r hinsawdd. Mae sawl cangen undeb Prospect wedi ethol cynrychiolwyr cynaliadwyedd ac yn ymgyrchu yn eu gweithleoedd i leihau gwastraff, i arbed ynni, i hybu defnydd trafndiaeth gyhoeddus, a mesurau eraill i helpu i leihau ôl troed carbon eu cyflogwr a chyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Cydraddoldeb

Mae trefnu ar y cyd hefyd yn gallu helpu i wneud eich gweithle yn fwy cydradd, amrywiol a chynhwysol. Mae undebau llafur wedi bod ar flaen y gad o ran ymgyrchu dros gydraddoldeb o ran rhyw a hil, dros hawliau gweithwyr anabl, ac wrth fynd i'r afael â phob math o wahaniaethu, gan gynnwys hiliaeth, rhywiaeth, a homoffobia. Mewn gweithleoedd lle mae'r staff yn aelodau o undeb, mae'r bwch cyflog rhwng y rhywiâu yn llai ac mae'r systemau talu yn fwy teg. Maent yn fwy tebygol o gael polisiau cadarn yn eu lle i fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu, ac yn fwy croesawgar a chynhwysol i fenywod a gweithwyr o gefndiroedd lleiafrifol.

Gwneud y gwaith yn well gyda'n gilydd.

prospect.org.uk/join



Telerau ac amodau

Pan mae gweithwyr yn trefnu ar y cyd, mae eu pŵer i fargeinio â'u cyflogwr yn fwy, ac fe allant ennill tâl a buddion gwell. Dyma pam fod cyflogau gweithwyr sy'n aelodau o undeb 8% yn uwch ar gyfartaledd na gweithwyr sydd ddim yn aelod o undeb (mae hyn yn cael ei adnabod fel 'premiwm yr undebau'), ac mae'r ffigur yn fwy na 15% ar gyfer menywod. Mae gweithwyr sy'n aelodau o undeb hefyd yn fwy tebygol o gael buddion gwell, fel tâl salwch uwch, tâl mamolaeth a thadolaeth uwch, mwy o lwfans gwyliau, a mynediad at bensiynau gwell.

Hyfforddiant

Mae undebau wedi chwarae rôl allweddol mewn gwella ansawdd ac argaeledd hyfforddiant yn y gweithle yn y DU. Mae gweithwyr sy'n aelodau o undebau yn fwy tebygol o gael hyfforddiant digonol o safon uchel gan eu cyflogwr, a'r llynedd, fe helpodd undebau'r DU mwy na 200,000 o weithwyr i gael mynediad at hyfforddiant sgiliau sylfaenol drwy gynlluniau fel y Gronfa Ddysgu Undebau. Mae undebau wedi bod yn ymgyrchu dros ragor o gyllid ar gyfer addysg a hyfforddiant, a dros welliannau i gynlluniau fel prentisiaethau modern.

Iechyd a Diogelwch

Mae gweithleoedd lle mae'r gweithwyr yn aelodau o undeb yn iachach ac yn fwy diogel. Mae astudiaethau wedi dangos bod gweithwyr sy'n aelodau o undeb yn cael 24% o ddamweiniau yn llai, ac yn llai tebygol o fod angen amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch. Y rheswm am hyn yw am fod undebau wedi defnyddio grym eu haelodaeth i ymgyrchu dros amodau gwaith iachach a mwy diogel, a dros hawliau cyfreithiol a gwarchodaeth ar gyfer cynrychiolwyr iechyd a diogelwch undebau. Ymgyrchu llwyddiannus undebau yw'r rheswm pam fod yna derfynau ar yr wythnos waith, a pham bod rhaid i gyflogwyr ddarparu offer diogelwch a gweithredu er mwyn lleihau peryglon yn y gweithle.

Llais unedig

Pan mae gweithwyr yn trefnu gyda'i gilydd mewn undebau, mae ganddynt lawer mwy o bŵer wrth ddod â phroblemau at sylw eu cyflogwr ac i negodi gwelliannau ar amrywiaeth eang o faterion. Mae gan undebau cydnabyddedig amrywiaeth o hawliau cyfreithiol, gan gynnwys yr hawl i gael gwybod am newidiadau busnes pwysig, yr hawl i gael gwybodaeth fusnes er mwyn helpu i negodi tâl ac amodau, hawliau i roi amser i ffwrdd o'r gwaith â thal i gynrychiolwyr undebau er mwyn iddynt allu cyflawni eu cyfrifoldebau undebol, a'r hawl i ethol cynrychiolwyr diogelwch a ffurfio pwyllgorau diogelwch. Mae'r hawliau cyfreithiol hyn, ar y cyd â phŵer trefnu ar y cyd, yn helpu undebau i ymgyrchu dros gyflogau gwell ac amodau gweithio gwell i bawb.